



Cofnodion Cyfarfod Busnes y Comisiynwyr

Dydd Mercher y 26^{ain} o Ebrill 2017

Yr Ystafell Gynadledda, Aberystwyth

Presennol

Comisiynwyr: Eurwyn Wiliam (Cadeirydd), Catherine Hardman (Is-Gadeirydd), Mark Redknap, Christopher Williams, Thomas Lloyd, Caroline Crewe-Read

Staff: Christopher Catling (Ysgrifennydd), David Thomas, Gareth Edwards, Rhian Davies, Angharad Williams, Reina van der Wiel

Sylwedydd: Andrew George (Cadw)

Adran 1: Materion rhagarweiniol

- **Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi dewis sylwi ar y cyfarfod. Dywedodd wrth y rheiny a oedd wedi ymgynnull na fyddai sylwedyddion yn gallu cyfrannu at y trafodaethau, ond nododd y byddai amser wedyn i sylwedyddion drafod unrhyw sylwadau a oedd ganddynt gyda'r Comisiynwyr.
- Cyflwynodd pawb eu hunain.

1.1 Ymddiheuriadau

Dim.

1.2 Datgan buddiannau

Dim.

1.3 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 20 Hydref 2016

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

1.4 Materion yn codi

- **Eitem 1.4 (11): Nododd** y Pwyllgor fod Historic England ac English Heritage wedi llwyddo i sicrhau statws IRO ar y cyd.

- **Eitem 2.1: Nododd** y Pwyllgor mai dyhead y Comisiwn yw cael cyllideb ddangosol dair-blynedd, ond nid oes gan yr un CNLC gyllideb sy'n fwy na blwyddyn ar hyn o bryd.
- **Eitem 3.5: Nododd** y Pwyllgor i swyddogaeth 'Cynnydd yn erbyn Cerrig Milltir a Chyflawni' y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gael ei hailenwi'n 'Materion Cyffredinol' yn dilyn y cyfarfod diwethaf.

1.5 Busnes y Cadeirydd

- **Nododd** y Cadeirydd gyda thristwch farwolaeth ein cyn Is-Gadeirydd Geoff Wainwright.

Adroddodd y Cadeirydd:

- Cynhaliwyd rownd gyntaf y broses o recriwtio Comisiynwyr ym mis Rhagfyr 2016.
- Mynychodd a chymerodd ran mewn Digwyddiad Enwau Lleoedd Hanesyddol i Randeiliaid a drefnwyd gan Dr Dai Lloyd AC, a chadeiriodd banel penodiadau i recriwtio Swyddog Enwau Lleoedd Hanesyddol (cynhelir cyfweiliadau pellach cyn bo hir).
- Mynychodd yr Is-Gadeirydd gyfarfod o'r Grŵp Llywio SWISH ym mis Rhagfyr 2016.
- Cynhaliwyd cyfarfod bach interim gan y Comisiynwyr ym mis Chwefror 2017 i gadarnhau'r cynnig a roddwyd gerbron gan Grŵp Llywio Cymru Hanesyddol a fersiwn drafft Cynllun Gweithredol 2017-18.
- Mynychodd lansiad CHERISH ym mis Mawrth 2017. Llongyfarchodd y staff ar ddigwyddiad llwyddiannus.
- Cyhoeddodd bapur academiaidd ar dri chawr pensaernïaeth werinol Cymru yn *The Journal of the Ancient Monuments Society*.
- **Llongyfarchodd** y Cadeirydd Chris Williams ar ei swydd newydd fel Pennaeth Coleg y Celfyddydau, Astudiaethau Celtaidd a Gwyddorau Cymdeithasol yng Ngholeg Prifysgol Cork.
- **Nododd** y Cadeirydd fod y ddau brif gasgliad o awyrluniau hanesyddol o Gymru wedi'u cyfuno, sy'n golygu bod bron miliwn o ffotograffau yng ngofal y Comisiwn bellach. Trafodir y cyfleoedd a gynigir gan hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwybodaeth a Dealltwriaeth (27 Ebrill 2017).

Adran 2: Cyllid

2.1 Adroddiad Cyllid

Mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2016-17, **nododd** y Comisiynwyr y canlynol:

- Roedd y Comisiwn yn gweithredu ar gyllideb fantoledig o £1.788m; roedd Gwir Incwm ychydig dros £1.797m.
- Yn ychwanegol at gyllid craidd Llywodraeth Cymru, derbyniodd y Comisiwn £60k ar gyfer y prosiect Enwau Lleoedd Hanesyddol a £65.5k i dalu am gostau symud gan Lywodraeth Cymru.
- Bu'r cais am arian Inter-reg yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y prosiect CHERISH yn llwyddiannus.
- Er gwaethaf ofnau cynharach, roedd Incwm a Enillwyd bron £4.5k yn fwy na'r £65.5k y cyllidebwyd ar ei gyfer o ganlyniad i dderbyn £3.7k gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol i gydnabod sicrhau Achrediad fel Canolfan Archifo Data MEDIN, a £1k o Gynhadledd Gorffennol Digidol.
- Roedd Gwir Wariant, heb gynnwys Gwariant CHERISH (£32k), bron £1.797m yn erbyn cyllideb o £1.788m.
- Mae hyn yn golygu y bu tanwario o £720 (£580 Refeniw a £140 Cyfalaf).
- Caniataodd y Gweinidog gais i drosglwyddo i gyfalaf £30k o'r arbedion o £40k a gododd o'r contract SWISH. Cynyddodd hyn ein Cyllideb Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn i £55k a bu modd i ni brynu Sganiwr Laser 3D o'r math diweddaraf.

Mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2017-18, **nododd** y Comisiynwyr y canlynol:

- Mae Cyllideb Fantoledig Ddrafft o £1.901m wedi'i chyflwyno i'r rheolwyr cyllidebau. Ni fu unrhyw newid yng nghyllid craidd Llywodraeth Cymru. Ar gyfer y prosiect CHERISH y derbyniwyd y prif gyllid ychwanegol (£208k), ac mae'r Gyllideb Gyflogau yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog o 2%.
- Cyllidebwyd ar gyfer llai o Incwm a Enillwyd na'r llynedd, i adlewyrchu gostyngiad yng ngwerthiant llyfrau ac incwm CHCC.
- Nid yw'r gyllideb yn ddigyfnewid. Ers cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, mae'r Comisiwn wedi cael dau grant arall, ar gyfer y prosiectau Teithwyr Ewropeaidd i Gymru (Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau) ac Eglwysi Catholig yn Cymryd Stoc (50% Ymddiriedolaeth Albert Gubay). Rydym hefyd yn aros am fanylion cyllido ynghylch y prosiect Treftadaeth

nas Cerir (CDL) a phenderfyniad ar gais cam 2 prosiect Llongau Tanfor yr Almaen (CDL).

- Caiff y gyllideb ei monitro bob mis, a gwneir addasiadau drwy gydol y flwyddyn.
- Mae'r Rheolwr Cyllid yn cyflwyno trefn rheoli a monitro cyllideb fwy manwl.
- Caniateir i'r Comisiwn wneud cais am fwy o gyllid cyfalaf, yn enwedig ar gyfer cyfarpar TG.

Adran 3: Materion 'byw' a materion sy'n gofyn am benderfyniadau

3.1 Adolygiad o Wasanaethau Treftadaeth

Nododd y Comisiynwyr y canlynol:

- Sefydlwyd Grŵp Llywio Cymru Hanesyddol ar gais Ysgrifennydd y Cabinet a dechreuodd gyfarfod ym mis Hydref 2016 gyda'r nod o gynyddu cydweithio a chyfranogi. Gofynnwyd i ymddiriedolwyr y pedwar sefydliad cenedlaethol gymeradwyo'r map ffordd. Cyfarfu'r Comisiynwyr ym mis Chwefror 2017 i wneud hynny; nodwyd y byddai angen mwy o gyllid i gyflawni'r gwaith yr oedd y map ffordd yn argymhell y dylai'r bartneriaeth strategol ei wneud.
- Ym mis Ebrill 2017, ymatebodd y Gweinidog nad oedd ef wedi'i argyhoeddi bod yn rhaid i Cadw ddod allan o lywodraeth i ddod yn fwy entrepreneuriaidd. Ond roedd yn frwd o blaid yr argymhelliad y dylai'r pedwar sefydliad sefydlu partneriaeth strategol i fwrw ymlaen â rhai prosiectau. Ar hyn o bryd mae'r Bartneriaeth Strategol yn gweithio ar Gylch Gorchwyl a Memorandwm o Ddealltwriaeth, ac mae ganddi syniadau pendant ar gyfer gweithio ar y cyd ar:
 - TG (e-fasnach a storio llawer iawn o ddata);
 - Marchnata hawliau ac asedau deallusol;
 - Cylchgrawn Cadw;
 - Adwerthu ac arlwyo.
- Y model posibl yw Casgliad y Werin Cymru, lle y mae pob sefydliad yn arwain llinynnau'r prosiect y mae ganddynt arbenigedd ynddynt.
- Fel sefydliad bach, mae angen i ni fod yn ofalus wrth gyfrannu at brosiectau ar y cyd oni chawn fwy o gyllid.
- **Diolchodd** y Comisiynwyr i'r Ysgrifennydd am ei gyfraniad yn y maes hwn, sy'n mynd â llawer iawn o amser ac yn uchel ei safon.

3.2 Cynllun Gweithredol 2017-18

- **Cymeradwyodd** y Comisiynwyr Gynllun Gweithredol 2017-18, gyda'r newidiadau canlynol:
 - Derbyn y geiriad newydd a awgrymwyd gan Andrew George ar gyfer Dangosydd Perfformiad Allweddol 4;
 - Cynnwys datganiad y datblygir cynllun cynhyrchu incwm, yn unol â'r cais yn y Llythyr Cylch Gwaith, drwy gyfarfodydd y Comisiynwyr.
- **Nododd** y Comisiynwyr yr angen i egluro nad yw'r Comisiwn ei hun yn ceisio statws elusennol; y bwriad yw ffurfio sefydliad elusennol annibynnol.
- **Diolchodd** yr Ysgrifennydd i Andrew George o Cadw. Mae'r DPAion a roddwyd i'r Comisiwn yn cyd-fynd yn dda â'r hyn y mae'r sefydliad yn ceisio ei wneud, ac mae llawer ohonynt yn gyfraniadau strategol a fydd yn llywio ein gwaith yn y dyfodol.
- **Nododd** y Comisiynwyr y cysylltiad rhwng DPAion 4 ac 11 sy'n ymwneud â Threftadaeth mewn Perygl.

Gweithredu: Diweddarar'r Cynllun Gweithredol ar ôl gwneud y newidiadau y cytunwyd arnynt a'i gyflwyno i Cadw.

Gan bwy: Christopher Catling

3.3 Statws elusennol

- **Nododd** y Comisiynwyr gynnwys y papur ar Statws Elusennol.
- **Trafododd** y Comisiynwyr y Polisi Gwneud Grantiau ac **awgrymasant** rai newidiadau, yn bennaf i sicrhau bod y geiriad yn yr adran 'Yr hyn a gyllidwn' yr un fath ag yn y cyfansoddiad, ac i gynnwys datganiad o dan 'Telerau ac Amodau' yn nodi nad yw'r Ymddiriedolwyr yn bwriadu trafod y rhesymau dros eu penderfyniadau.
- **Nododd** y Comisiynwyr y bydd y Sefydliad arfaethedig yn gyfrwng i wneud ceisiadau i gyrff elusennol eraill nad ydynt yn cyllido ond elusennau cofrestredig. Ni fydd ganddo staff, er y bydd ganddo rai costau (e.e., Teithio a Chynhaliaeth Ymddiriedolwyr; a chostau archwilio blynyddol). Ceisir caniatâd gan Lywodraeth Cymru i dalu'r costau hyn o gyllideb graidd y Comisiwn Brenhinol.
- **Cytunodd** y Comisiynwyr i rannu syniadau ynghylch ymddiriedolwyr sefydlu posibl a **nodasant** y bydd y broses hon yn cymryd ychydig o fisoedd.
- **Nododd** y Comisiynwyr fod yn rhaid i un rhan o dair o ymddiriedolwyr ymddeol ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ôl paragraff 11.2 o'r Cyfansoddiad Drafft Diwygiedig ar gyfer Sefydliad Corfforedig Elusennol

(SCE/CIO); eglurwyd y gall yr ymddiriedolwyr hyn sefyll eto i'w hailethol os dymunant.

Gweithredu: Rhannu syniadau ynghylch Ymddiriedolwyr Sefydlu posibl.

Gan bwy: Pawb

Gweithredu: Awgrymu gwelliannau a dosbarthu'r dogfennau terfynol ar gyfer eu craffu.

Gan bwy: Christopher Catling

3.4 Safonau Iaith Gymraeg

Nododd y Comisiynwyr y canlynol:

- Mae'r staff wedi gweithio'n galed i sicrhau cydymffurfiad erbyn y dyddiad gosod o 5 Ionawr 2017, yn enwedig aelodau'r gweithgor a sefydlwyd i baratoi ar gyfer gweithredu'r safonau newydd. Mae gwaith yn cael ei wneud i baratoi ar gyfer gweithredu rhai safonau pellach sydd â dyddiad gosod o 25 Gorffennaf 2017.
- Darparwyd hyfforddiant staff i gyflwyno gofynion y safonau yn ystod mis Tachwedd 2016, a darparwyd arweiniad i gynorthwyo staff ar draws y Comisiwn.
- Mae nifer o staff wedi dangos eu hymrwymiad i wella eu sgiliau drwy fynychu dosbarthiadau bob wythnos.
- Bydd angen i Bolisi Iaith Gymraeg diwygiedig adlewyrchu'r gofynion newydd ac mae'n cael ei lunio ar hyn o bryd.
- Fel y cytunwyd yng nghyfarfod mis Hydref 2016 y Comisiynwyr, cyflwynodd y Comisiwn her i Safon 48, gan ofyn am eithriad ar gyfer 'yr holl destun disgrifiadol o gronfa ddata Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru a gyhoeddir ar-lein, er enghraifft drwy wefan Coflein'. Cyflwynwyd ein cais i Gomisiynydd y Gymraeg ar 17 Ionawr 2017. Dilyswyd y cais gan y Comisiynydd ar 20 Ionawr 2017. Derbyniaisom ystyriaeth gychwynnol Comisiynydd y Gymraeg ar 12 Ebrill 2017 ac mae gennym hyd 28 Ebrill 2017 i ymateb. Ar yr adeg hon, mae cynnwys yr ystyriaeth gychwynnol yn gyfrinachol.

Gweithredu: Cyflwyno'r Polisi Iaith Gymraeg yng nghyfarfod Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Gorffennaf 2017.

Gan bwy: Angharad Williams

3.5 Recriwtio Comisiynwyr

Nododd y Comisiynwyr y canlynol:

- Roedd y tair swydd wag ar gyfer Comisiynwyr wedi'u hail-hysbysebu. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 18 Ebrill 2017. Derbyniwyd 22 gais. Llunnir y rhestr fer ar 5 Mai 2017 a chynhelir y cyfweiliadau ar 12 ac 13 Mehefin 2017.
- Mae'r cydbwysedd rhwng y rhywiau'n llawer gwell na'r tro diwethaf: cafwyd naw cais gan fenywod a 13 gan ddynion.

Adran 4: Cyflwyniadau

4.1 Enwau Lleoedd Hanesyddol

- **Cyflwynodd** David Thomas y gwaith a wnaed hyd yma ar y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru, gan gynnwys datblygiadau technegol ac o ran cynnwys.
- **Nododd** y Comisiynwyr ein bod ni'n edrych ymlaen at lansio'r Rhestr ar 8 Mai 2017.

4.2 Rhestr Meysydd Brwydro

Cyflwynodd Scott Lloyd y Rhestr o Feysydd Brwydro a lansiwyd ym mis Chwefror 2017.

Adran 5: Materion cau

5.1 Unrhyw faterion eraill

Cytunodd y Comisiynwyr, mewn egwyddor, i gynnwys ymweliad maes yng nghyfarfodydd Hydref 2017 y Comisiynwyr.

5.2 Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol

18 – 20 Hydref 2017

25 – 26 Ebrill 2018

5.3 Nodiadau briffio'r staff

Cytunodd y Comisiynwyr y câi'r canlynol eu cyflwyno gan y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd i'r holl staff ar Ddydd Iau 27 Ebrill:

- Adolygiad o Wasanaethau Treftadaeth
- Y Cynllun Gweithredol – llongyfarch ar weithgaredd 2016-17
- Y Diweddaraf am Statws Elusennol
- Recriwtio Comisiynwyr
- Cydymffurfio – cydnabod y gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ef
- Treftadaeth nas Cerir?
- Casgliad y Werin Cymru
- Y casgliad o awyrluniau
- Gorffennol Digidol 2018 – pen-blwydd yn ddeg oed

Diolchodd y Cadeirydd i'r ymwelwyr a **dywedodd** y byddai'n mawr werthfawrogi derbyn sylwadau ganddynt am unrhyw agwedd ar y cyfarfod.